# Profion Llythrennedd Cymraeg

# Darllen

# Deunyddiau'r athro

Cynnwys:

D1. Darllen geiriau unigol graddedig

D2. Cyflymdra darllen

D3. Enwi cyflym

## D1. Darllen Geiriau Unigol

***Dwi'n mynd i ddangos rhestr o eiriau i ti a dwi eisiau i ti ddarllen y geiriau i fi. Galli di ddefnyddio dy fys i gadw dy le os wyt ti eisiau. Os wyt ti'n gwneud camgymeriad, galli di gywiro dy hun a phan wyt ti'n cyrraedd gair anodd, rho gynnig arni, ond os yw'n rhy anodd symuda ymlaen i'r gair nesaf. Wyt ti'n barod?***

| Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb | Eitem | | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | dim | | 12 | marchnad | | 23 | cynghori | |
| 2 | gall | | 13 | gwerthfawr | | 24 | arweinydd | |
| 3 | oed | | 14 | cynnig | | 25 | annisgwyl | |
| 4 | gwag | | 15 | cynnwys | | 26 | hyrwyddo | |
| 5 | bwrdd | | 16 | tywydd | | 27 | comisiynydd | |
| 6 | dwyn | | 17 | cyffrous | | 28 | cydymffurfio | |
| 7 | byd | | 18 | prifysgol | | 29 | ysgrifenedig | |
| 8 | ardal | | 19 | ymddangos | | 30 | uniongyrchol | |
| 9 | cynradd | | 20 | cefnogaeth | | 31 | ymwneud | |
| 10 | swyddog | | 21 | rheolaidd | | 32 | gwreiddiol | |
| 11 | siopa | | 22 | disgybl | | 33 | angenrheidiol | |
| ***Rhowch 1 marc am bob ateb cywir.*** | | | | | | | ***Cyfanswm*** | |

**Rhowch y daflen Darllen Geiriau Unigol i'r disgybl**

| | | | |
|---|---|---|---|
| dim | gall | oed | gwag |
| bwrdd | byd | ardal | cynradd |
| swyddog | siopa | marchnad | gwerthfawr |
| cynnig | cynnwys | tywydd | cyffrous |
| prifysgol | ymddangos | cefnogaeth | rheolaidd |
| disgybl | cynghori | arweinydd | annisgwyl |
| hyrwyddo | comisiynydd | cydymffurfio | ysgrifenedig |
| uniongyrchol | ymwneud | gwreiddiol | angenrheidiol |

## D2. Cyflymdra darllen

***Rydw i eisiau i ti ddarllen dau baragraff yn Gymraeg. Darllena ar dy gyflymdra arferol a'r cyfan byddaf i yn ei wneud yw amseru faint o amser mae'n cymryd i ti ddarllen y ddau ddarn, a gwneud ambell nodyn ar fy nghofnod i. Iawn?***

Rho gerdyn Darn Darllen 1 i'r disgybl.

***Barod? Bant a ti.***

Dechreua'r amseru wrth i'r disgybl ddarllen y gair cyntaf. Mae canllawiau cofnodi a marcio ar dudalen 6.

**Darn darllen 1 – Taith yr Urdd: *Taflen yr athro***

Wythnos ddiwethaf, cafodd disgyblion Blwyddyn 9 groeso cynnes gan ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Roedd y llety yng Nghaerdydd yn wych ac roedd yr arweinwyr wedi trefnu taith ddiddorol iawn i ni. Ar ddydd Mawrth aethom i Ferthyr lle buom yn ymweld â Chastell Cyfarthfa, sydd yn lleoliad hardd iawn. Buom hefyd yn ymweld â chartref Joseph Parry ac yn gwrando ar rywfaint o'i gerddoriaeth. Ddydd Mercher, aethon ni i Big Pit a mentro o dan y ddaear. Cawsom ein harwain gan gyn-lowyr. Roedd yn rhaid gwisgo helmedau a goleuadau ac fe ddangoson nhw i ni sut cafodd y gwythiennau glo eu cloddio gyda cheibiau.

***Diolch yn fawr. Nawr rydym am wneud union yr un peth gyda'r darn darllen nesaf. Byddaf i yn mesur faint o amser mae'n cymryd i ti ddarllen y paragraff ac yn gwneud ambell nodyn ar fy nghopi i.***

Rho gerdyn Darn Darllen 2 i'r disgybl.

***Barod? Cer / Dos amdani.***

**Darn darllen 2 – Uwd: *Taflen yr athro***

Pan fydd pobl yn clywed y gair 'uwd' maen nhw'n meddwl am fowlen o hen flawd ceirch llwyd, lleidiog. Ond nid oes rhaid i hynny fod yn wir. Wna i gyfaddef, dydy hyn ddim yn swnio'n ddeniadol iawn nac yn gyffrous i ddechrau - ond gydag ychydig o ddychymyg ac arbrofi yn y gegin, gallwch roi hwb i'ch boreau gyda bwyd iachaf a rhataf y byd! Mae uwd yn llawn ffibr ac felly profwyd ei fod yn lleihau'r risg o ddiabetes, gostwng colesterol ac yn eich helpu i golli pwysau trwy gynnal lefelau siwgr gwaed cyson trwy gydol y dydd. Yn ogystal, mae astudiaethau wedi dangos y gall uwd roi hwb i'ch lefel egni, helpu chi i ganolbwyntio a lleihau tocsinau yn y corff.

**Canllawiau marcio cyflymdra darllen**

1. Dechreuwch y cloc pan fo'r disgybl yn dechrau darllen y gair cyntaf, a stopiwch pan fydd wedi gorffen y gair olaf.

2. Am unrhyw un o'r gwallau canlynol, **rhowch linell o dan y gair perthnasol**:

- Cam ddweud gair
- Peidio a darllen gair

3. Os ydy disgybl yn hunan-gywiro, hynny yw darllen gair yn nghywir ond yna ceisio eto a'i gael yn gywir, **nodwch "HG" uwchben y gair**.

3. Os ydy disgybl yn neidio dros linell gyfan neu dros clwstwr o eiriau**, rhowch linell** o dan pob gair

4. Os ydy disgybl yn ychwanegu gair neu geiriau, **rhowch arwydd ⮝ yn y bwlch** lle ychwanegwyd y gair.

5. Cyfrifwch y nifer o wallau **(sawl llinell sydd o dan geiriau, sawl "HG" sydd a sawl "⮝" sydd)** a rhowch y rhif yn y blwch priodol ar flaen y llyfryn profion.

6. Nodwch yr amser a gymerodd i ddarllen y paragraff, mewn eiliadau, yn y blwch priodol.

| **Darn Darllen 1** | |
|---|---|
| Amser a gymerwyd | |
| Nifer o wallau | |

| **Darn Darllen 2** | |
|---|---|
| Amser a gymerwyd | |
| Nifer o wallau | |

## D3. Enwi cyflym

### 1. Rhifau

Dangoswch y dudalen "ymarfer" i'r disgybl.

***Edrycha ar y rhifau hyn. Hoffwn i ti eu darllen i fi.***

Mae'r disgybl yn darllen y 6 rhif ymarfer. Gwiriwch eu bod yn adnabod enwau'r rhifau i gyd.

2 5 7 9 3 8

***Ar y dudalen hon mae gen i fwy'r o'r un rhifau, wedi ailadrodd. Dechreua yma ar ben y dudalen a gweithia dy ffordd ar hyd y rhesi i'r gwaelod. Dwi am i ti enwi'r rhifau ym mhob rhes mor gyflym ag y gelli di hyd nes cyrraedd y diwedd. Wyt ti'n deall? Iawn, bant a ti.***

Dechreuwch amseru yn syth. Stopiwch amseru pan fo'r disgybl wedi dweud y rhif olaf.

Rhowch ***gylch*** **o gwmpas pob gwall** a ***llinell*** **o dan unrhyw rifau mae'r disgybl yn hepgor**.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 3 | 9 | 7 | 5 | 2 | 8 |
| 9 | 5 | 2 | 7 | 3 | 8 | 2 |
| 7 | 2 | 8 | 3 | 9 | 5 | 7 |
| 8 | 5 | 2 | 3 | 9 | 7 | 5 |
| 2 | 9 | 5 | 9 | 7 | 3 | 8 |
| 3 | 7 | 9 | 8 | 2 | 5 | 3 |

**Amser a gymerwyd:**

## 2. Llythrennau

Dangoswch y dudalen "ymarfer" i'r disgybl.

***Edrycha ar y llythrennau hyn. Hoffwn i ti eu darllen i fi.***

Mae'r disgybl yn darllen y 6 llythyren ymarfer. Gwiriwch eu bod yn adnabod **synau'**r holl lythrennau (nid eu henwau megis es, em, ell, eff).

w s o m ll ff

***Ar y dudalen hon mae gen i fwy'r o'r un rhifau, wedi ailadrodd. Dechreua yma ar ben y dudalen a gweithia dy ffordd ar hyd y rhesi i'r gwaelod. Dwi am i ti enwi'r rhifau ym mhob rhes mor gyflym ag y gelli di hyd nes cyrraedd y diwedd. Wyt ti'n deall? Iawn, bant a ti.***

Dechreuwch amseru yn syth. Stopiwch amseru pan fo'r disgybl wedi dweud y rhif olaf.

Rhowch ***gylch*** **o gwmpas pob gwall** a ***llinell*** **o dan unrhyw rifau mae'r disgybl yn hepgor**.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| o | ll | w | s | ff | m | o |
| s | ff | m | ll | w | s | o |
| ll | s | w | ff | o | m | s |
| ff | w | o | s | ll | w | m |
| w | s | ll | m | o | ff | w |
| m | ff | s | o | m | w | ll |

**Amser a gymerwyd:**